

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Chwefror 5ed, 2015 yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog.

Yn bresennol: Y Cynghorwyr John Williams, (Cadeirydd); Ifor Wyn Davies, (Is gadeirydd); Trefor Wyn Jones; William Ifor Hughes; Dafydd Williams; Brian W Ifans; Anwen Jones; Alwen Evans; Naomi Jones; Elis Gwyn Jones; Marian Evans; Gwilym M Thomas; Aled Lloyd Evans a'r Clerc.

1. Ymweliad Mr Arfon Hughes, Hwylusydd Tai Gwledig i gyflwyno ac ateb cwestiynau ar yr ymateb gafwyd i'r holiaduron ar angen tai lleol yn Ward Llanarmon a Llanystumdwy. Oherwydd cam ddealltwriaeth nid oedd Mr Hughes yn bresennol.

Penderfynwyd ail drefnu.

2. Ymddiheuriadau. Y Cyngorydd Margaret Griffith.

3. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod Ionawr 8fed, 2015 o'r Cyngor. a chyfarfod Pwyllgor Cyflog ac Amodau Gwaith y Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol gyfarfu ar Dachwedd 6ed, 2014.

4. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.

5. Datgan buddiant personol. Ni fydd y Cynghorwyr Aled Lloyd Evans na Trefor Wyn Jones yn cymeryd rhan yn y drafodaeth ar gais Elusen Dystonia Dwyfor am gymorth ariannol oherwydd maent yn ymddiriedolwyr i'r elusen. Ni fydd y Cyngorydd Thomas Prys Jones yn cymeryd rhan yn y drafodaeth ar gais Pwyllgor Mynwent Capel Helyg am gymorth ariannol am ei fod yn un o ymddiriedolwyr Capel Helyg sy'n gyfrifol am y fynwent. Ni fydd y Cyngorydd Trefor Wyn Jones yn cymeryd rhan yn y drafodaeth ar gais Eisteddfod Gadeiriol Chwilog am gymorth ariannol achos mae yn aelod o bwyllgor yr eisteddfod. Ni fydd y Cynghorwyr John Williams, Alwen Evans, Marian Evans, Brian W Ifans, Elis Gwyn Jones, Anwen Jones na Naomi Jones yn cymeryd rhan yn y drafodaeth ar gais Pwyllgor Mynwent Newydd Llanystumdwy am gymorth ariannol achos maent yn aelodau o bwyllgor y fynwent. Ni fydd y Cyngorydd Gwilym M Thomas yn cymeryd rhan yn y drafodaeth ar gais Elusen Dystonia Dwyfor am gymorth ariannol am ei fod yn aelod o'r pwyllgor codi arian at yr elusen ac yn dad i berson sy'n dioddef o'r cyflwr.

6. Cyngor Gwynedd.

1. Gwasanaeth Cyfreithiol; Y Côt Ymddygiad i Aelodau. Doedd neb awydd mynd i gwrs fyddai'r Cyngor Sir yn ei drefnu ynghylch agweddau o'r Côt Ymddygiad i Aelodau megis Buddiannau Personol; Creu a Chynnal Diwylliant Priodol; Trafodaethau a Phenderfyniadau a Goddefebau gan y Pwyllgor Safonau. Roedd teimlad y gallai cwrs fod yn fuddiol pan fyddai Cynghorwyr newydd yn ymuno â'r Cyngor.

2. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Materion y Gymuned. Derbyniwyd y byddai'r Cyngor Sir yn trefnu glanhau'r llwybrau rhwng Llanystumdwy a Chricieth ac ym Mhenygroes Llanystumdwy yn dilyn y gwyn bod beicwyr yn cael punctures ar y llwybrau yma.

3. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol. Rhaglen Waith Trafnidiaeth a Priffyrdd mis Chwefror 2015. Derbyniwyd y wybodaeth y bydd gwaith agor ffosydd yn mynd ymlaen o Bencaenewydd i

Brychyni, rhwng Llangybi a Llecheiddior a rhwng Chwilog a Llecheiddior yn ystod mis Chwefror.

4. Fforwm Mynediad Lleol Arfon a Dwyfor. Roedd cais i annog ceisiadau i fod yn aelodau o'r fforwm. Cytunodd y Cynghorydd Elis Gwyn Jones i'w enw gael ei roi ymlaen.

5. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Strydoedd – Lôn Chwarel Penarth. Derbyniwyd y bydd y llanast sydd bob ochr i geg Lôn Chwarel Penarth yn cael ei glirio, y bydd y cais am leoli bin sbwriel ar y safle yn cael ei drafod gyda'r swyddogion glanhau ac y trefnir bod warden gorfodaeth yn cadw golwg ar y sefyllfa.

6. Adran Rheoleiddio; Cyfyngiad Cyflymder 30,40 a 50 m y a – Y Ffôr, Rhosfawr, Pwllheli, Morfa Nefyn i Edern, Pentrefelin a Penygroeslon. Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth.

7. Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn; CDLI ar y Cyd Gwynedd a Môn – Y Cynllun Adnau. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn dechrau tua Chwefror 16eg, 2015 ac yn dod i ben Fawrth 31ain, 2015. Penderfynwyd anfon y wybodaeth, pan ddaw, ymlaen at y Panel sydd i'w drafod sef y Cynghorwyr Margaret Griffith, Aled Lloyd Evans, Brian W Ifans a Thomas Prys Jones.

7. Cyngor Gwynedd – Ceisiadau Cynllunio yn y Gymuned:

1. Cais rhif: C15/0012/41/LL – Estyniad i fodurdy; Llety Plu, Llangybi. Cefnogwyd.

2. Cais rhif: C15/0013/41/LL – Dymchwel estyniad cefn presennol a chodi estyniad deulawr cefn yn ei le; Ty'n Lon, Plas Hen, Chwilog. Cefnogwyd.

3. Cais rhif: C15/0014/41/RC – Diddymu Cytundeb 106 sy'n cyfyngu defnydd yr eiddo i fflat nain; Gell Farm, Criccieth. Cefnogwyd.

4. Cais rhif: C15/0030/41/RC – Diddymu Cytundeb 106 sy'n cyfyngu'r eiddo i angen lleol; Drws y Coed, Pencaenewydd. Cefnogwyd.

8. Ymateb ysgolion i Siarter Iaith Cyngor Gwynedd. Derbyniwyd yr ymateb gafwyd o Ysgolion Cynradd Llangybi, Chwilog a Llanystumdwy. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd rhoi cyfraniad i'r dair ysgol yn benodol ar gyfer paratoi gemau buarth ac i brynu CDau Cymraeg.

9. Materion yn y gymuned.

Rhoslan a'r Ynys

Llanystumdwy

Chwilog

Llangybi

Pan fo tipyn o law mae cryn dipyn o ddŵr ar y ffordd rhwng Llangybi a Chefn Pencoed. Mae'r ffosydd agorwyd rai blynyddoedd yn ôl erbyn hyn wedi cau eto. Byddai'n fantais i bawb pe agorid nhw eto. Mae'r gwaith yma ar raglen waith Cyngor Gwynedd am fis Chwefror 2015, gweler cofnod 6.3 uchod. Derbyniwyd.

Pencaenewydd

1. Yr hofrennydd sydd yn ardal Pencaenewydd a'r Ffôr. Derbyniwyd mai cynllun hyfforddi hofrenyddion o'r Fali ydi rhain.
2. Troliau ail gylchu. Derbyniwyd y wybodaeth bod rhain wedi cyrraedd Pencaenewydd.
3. Pant Glasfryn Fawr; dŵr yn sefyll ar y ffordd. Penderfynwyd anfon at Adran Priffyrdd y Cyngor Sir ynghylch hyn.

10. Materion heb gael ymateb iddynt. Doedd dim materion y mis yma.

11. Heddlu Gogledd Cymru yn annog perchnogion gynnau i baratoi ar gyfer adnewyddu eu tystysgrifau. Penderfynwyd anfon y wybodaeth ymlaen i olygyddion Y Ffynnon.

12. Gohebiaeth oddi wrth Robert Ll Pierce, Morfa Glas, Llanfrothen ynghylch Y Ffordd Rhwng Ysgubor Hen a Thalar Deg. Penderfynwyd ateb yn dweud bod ei lythyr yn cael ei anfon ymlaen at Adran Trafnidiaeth a Gofal Stryd Cyngor Gwynedd ac mai gyda nhw y dylai ohebu ymhellach ynghylch y mater.

Y Cyngor yn gaeedig i'r Cyhoedd ac i'r Wasg.